IESTYN TYNE

# Y CYFAN A FU RHYNGOM NI

## AR LWYBRAU 'ATGOF' PROSSER RHYS



# Y Cyfan a Fu Rhyngom Ni

Iestyn Tyne

## Prolog

## Dedalus

Mae cyffro y tu hwnt i ddrws y pafiliwn; torf o bobl yn dynesu trwy wyll y babell eang. Mae clogynnau'n siffrwd, penwisgoedd yn cael eu twtio a thameidiau o sgyrsiau byrion a thaer yn digwydd ac yn darfod.

Y tu allan, o'r golwg ond yn bresennol trwy'r ffaith fy mod i'n gwylio eiliadau prin y ffilm Pathé sy'n tystio i'r digwyddiad, mae'r camerâu a gwŷr y wasg. Yno hefyd, heb os, mae torf enfawr o bobl, y rhai hynny na lwyddon nhw i hawlio sedd yn y gynulleidfa, yn aros i gael cip ar y sawl sydd ar gyrraedd. Mae yna wthio a phenelinio, pawb am y gorau i gael cip; berw o hetiau crynion caled a hetiau closh meddal, mwg sigaréts a chetynnau a su gwenynaidd y ffotograffwyr. Os yw hwn, dydd Mawrth y coroni, yn ddiwrnod poblogaidd bob blwyddyn, mae diddordeb neilltuol heddiw am fod ymwelydd enwocach nag arfer ar y Maes ym Mhont-y-pŵl.

Rhwng priflythrennau sefydliadol y Wasg a'r Orsedd mae gŵr ifanc, gwelw yr olwg, yn sefyll am eiliad yn ei gwmni ei hun; mewn bwlch bach o dawelwch sy'n agor rhwng dau brysurdeb. Mae sglein ar ei sgidiau ond mae'i siwt yn rhy dynn mewn mannau, yn llac mewn mannau eraill. Nid ei siwt ef ei hun, efallai; nid siwt ddrud, yn sicr. Prin y sylwech arno yng nghanol y pantomeim, oni bai am y ffaith nodedig fod ganddo goron arian uchel am ei ben. Er mor uchel yw, mae'n cario honno'n gyfforddus; osgo'i ysgwyddau'n hyderus wrth iddo droi at y sawl sy'n ei ddilyn.

At ei ymyl rŵan y daw hwn, y tywysog arall. Tywysog gwneud o wlad wahanol ond un sydd, rydw i'n amau, yn gwybod p'un o'r ddau ohonynt sydd am heddiw o leiaf yn aer i Goron Genedlaethol. Maen nhw'n rhannu'r un enw cyntaf; un yn Edward Albert Christian George Andrew Patrick David o Windsor, y llall yn Edward Prosser Rhys o'r Mynydd Bach yng Ngheredigion. Oherwydd y cyntaf o'r ddau y penderfynwyd fod

hon yn foment i'w chadw ar ffilm ac o'i herwydd ef y mae ambell un tuag ymylon y ffrâm yn diosg eu hetiau o barch brysiog; ond oherwydd yr ail y caf fy nhynnu, dro ar ôl tro, at ronnynnau prysur y clip ar YouTube. Mae'n cymryd eiliad neu ddwy i lygaid y criw addasu i lacharedd Awst wedi tywyllwch llaes y pafiliwn, wrth i'r Gorseddigyn newydd gael trefn ar ei ŵn hir ac ailosod ei gap sgolor am ei ben gyda gofal, gan dylino'r melfed du yn ôl i'w briod siâp.

Gam y tu ôl iddynt mae mawrion yr Eisteddfod a'r Orsedd; y mwyaf o'r mawrion ar ffurf Elfed, yr Archdderwydd, efallai, ei gerddediad yn rhowlio fel cerddediad llongwr; hendaid yr Eisteddfod, erbyn hyn. Wrth ei benelin yntau mae Syr Vincent Evans ei hun, ysgrifennydd Cymdeithas yr Eisteddfod, golygydd y Cyfansoddiadau ac ymgorfforiad deddf a threfn sefydliad afreolus ar brydiau; os Elfed yw penddelw'r llong, Vincent sy'n gweithio'n galed i roi'r argraff fod llaw gadarn ar ei llyw. Yna daw Syr Ivor Herbert, Arglwydd Treowen: cyn-Aelod Seneddol Rhyddfrydol De Mynwy a gŵr o linach eisteddfodol anrhydeddus fel ŵyr i Augusta Hall, Barwnes Llanofer, Gwenynen Gwent. Mae yntau â'i wyneb main a difrifol dan gap melfed gyda'r nod cyfrin ar y talcen ac yn prysuro i hebrwng ei wraig, Albertina, trwy ganol y sgrỳm. Aiff Iarlles Treowen i sefyll yn y ffenest rhwng y ddau dywysog, a rhythu'n flin braidd i gyfeiriad y camerâu. Ei gwaith hi fu arwisgo'r darpar frenin yn aelod cyflawn o Orsedd y Beirdd cyn defod y coroni, trwy glymu rhuban gwyrdd am ei fraich i ddynodi'i adnabod dan yr enw barddol Iorwerth Dywysog. Daw eraill i'r golwg yn y cefndir, er ei bod yn anodd adwaen nodweddion wyneb ac ystum o bell. Ac os yw pawb arall ar bigau braidd, yn ceisio trefnu'u hunain ar gyfer y foment hon, rhai yn ansicr efallai am sut i ymddwyn yng ngŵydd tywysogaeth, balch a phenuchel yw Edward Prosser Rhys wrth rannu chwerthiniad â'r ymwelydd, y sylw ffraeth a'i sbardunodd yn llithro i lwnc y ganrif sydd rhyngom.

Dim ond munud a naw eiliad yw hyd y clip, ond rydw i wedi'i wylio ddegau o weithiau. Mae'n troi gen i wrth ysgrifennu hyn; yn pasio mor chwim ond eto, rydw i'n sylwi ar rywbeth newydd o hyd. Dydi rhywun ddim yn cymryd y ffaith o weld pobl yn y 1920au yn symud, yn sgwrsio, yn chwerthin, yn ganiataol. Pobl yr ydym yn nabod eu hedrychiad, efallai, o bortreadau syber; lluniau wedi'u llwyfannu'n ofalus dan siars i aros yn gwbl lonydd. Mae yma hiwmor, tynnu coes; dangos parch trwy ystumiau'r corff. Mae'r bobl hyn yn siarad â mi. Maen nhw'n fy ngwahodd i'w byd, yn ceisio fy nghael i feddwl amdanyn nhw yn yr adegau sy'n disgyn y tu hwnt i deilyngdod y cofnod hanesyddol. Rydw i'n ysu am sylwi ar un ohonyn nhw'n chwythu trwyn, neu'n taflu winc slei at rywun y tu hwnt i'r camera.

Mae'n gwneud i mi sylweddoli mor anodd ydi ceisio estyn llaw a gafael yn edafedd personoliaeth rhywun sy'n perthyn i oes wahanol; nad yw'n byw ond trwy'r hyn y dewisodd, neu y dewisodd ei deulu ei bod yn briodol ei waddoli a'i ddiogelu er budd cenedlaethau'r dyfodol. Weithiau, daw cofiannydd rhyngom ni a'n gwrthrych hefyd; a dyma fi, un arall, yn ceisio tynnu ambell haen ond yn ychwanegu f'un newydd innau at y llanast hefyd.

Does dim sain yn gefnlen i'r fideo; dim cerddoriaeth jingoistaidd nac acen BBC yn disgrifio'r hyn sy'n digwydd. Mae'r ffigyrau gronynnog yn symud ar draws fy sgrin yn herciog, fel pypedau braidd, eu cerddediad ryw hanner cam yn sioncach nag y dylai fod, y curo dwylo yn gomig o gyflym. Mae fel rhyw hanner gwirionedd lle mae digon i'r dychymyg gael ei ddannedd ynddo. Oherwydd mae gofyn i'r hanesydd fod â dychymyg byw hefyd, wrth geisio clytio'r hyn a fu yn ôl at ei gilydd; ceisio paru edafedd modern â thameidiau o hen frethyn. Ail-greu rhywbeth yn y tyllau. Os dibynnwn ar y dystiolaeth sych yn unig, pa le sydd i gyfrin bethau'r galon, yr hyn nad ysgrifennwyd, na ffotograffwyd, na ddarluniwyd? Ac i ba raddau yr ydym ni'n ein hamddifadu'n hunain o well dealltwriaeth o fywydau'r gorffennol trwy beidio â chaniatáu,

weithiau, rwydd hynt i'r hyn a allai fod wedi bod? Fe ddylem gofio, hefyd, mai un math o hanes y tybiwyd, dros ganrifoedd maith, ei bod yn dderbyniol ac yn briodol ei roi ar gof a chadw.

Bydd dadlau weithiau ynghylch y mater o ddamcaniaethu fod ffigyrau amlwg yn hanes y byd yn ffigyrau cwiar. Un enghraifft nodedig yw Abraham Lincoln, y dywedir gan rai ei fod yn ddeurywiol (term nad oedd yn bodoli yn ei oes ei hun, wrth gwrs – ceir y defnydd hysbys cyntaf o'r gair bisexual yn yr iaith Saesneg ym 1892, ddegawdau wedi llofruddiaeth Lincoln). Yn ifanc, cafodd y darpar arlywydd berthynas hirhoedlog â gŵr ifanc arall o'r enw Joshua Speed, perchennog siop yn Springfield, Illinois. Na, doedd hi ddim yn beth anghyffredin i ddau ddyn ifanc rannu gwely mewn tŷ lojin yn y dyddiau hynny – ac felly doedd hynny ynddo'i hun ddim yn dystiolaeth fod rhywun yn hoyw neu'n ddeurywiol. Doedd y ffaith nad oedd hynny'n anghyffredin ddim yn dystiolaeth i'r gwrthwyneb chwaith, ond mae'n gwneud y cyfan yn haws i haneswyr – yn enwedig y rhai sydd efallai'n anghyfforddus â'r ensyniad ac am ei ddileu – ddiystyru'r cyfan fel ffansi, fel bodloni naratif modern. Anos wedyn yw diystyru'r llythyrau angerddol rhwng Lincoln a Speed a'r modd torcalonnus y teimlai'r ddau eu bod yn bradychu'i gilydd trwy briodi â'u gwragedd. Ond gwnaethpwyd joban effeithiol ar y cyfan, o wadu goblygiadau'r rheiny hefyd.

Rhaid i ni roi lle i hanes anadlu, i ystwytho'i gyhyrau ryw fymryn. Caniatáu rhoi 'os' ar ôl y 'beth'.

Prosser, felly. Deuthum ar ei draws ar hap i bob pwrpas; cyrhaeddodd ei gyfrol denau o gerddi fy nhŷ myfyrwyr yn Aberystwyth mewn bocs o lyfrau ail law a chefais gopi o gofiant iddo ar ôl rhywun arall. Casglwn domennydd o lyfrau o farddoniaeth Gymraeg ac am farddoniaeth Gymraeg bryd hynny gan losgi fy menthyciad hael ar hel pethau allai fod o ddefnydd ryw ddydd. Wnes i ddim troi at ei waith nes cael cic gan destun traethawd a ofynnai i ni ysgrifennu gwerthfawrogiad o waith bardd Cymraeg o'r ugeinfed ganrif. Bryd hynny y crwydrodd fy llaw at feingefnau treuliedig y cyfrolau hynny; ac at y llun trawiadol o Prosser ar glawr cofiant Rhisiart Hincks, yn pwyso'n hamddenol ar gadair dderw hardd Eisteddfod Ieuenctid Hâd y Cymry, Penbedw. Pwy oedd hwn? Gwelais wrth sgimio'r amlinelliad o ddyddiadau'i fywyd ei fod wedi ennill rhagor o gadeiriau lleol ac i brofi ei fod yn fardd o ddifri – Coron yr Eisteddfod Genedlaethol ei hun. Tystiai enwau a neidiai o'r tudalennau wrth sgimio wedyn i'w droadau yn yr un cylchoedd â Cynan, Kate Roberts a Caradog Prichard, enwau mwy cyfarwydd i mi. Bu farw'n ifanc – roedd dyddiadau deupen ei fywyd yno ar y clawr: 1901-1945. Bywyd a rychwantai ddau ryfel byd a chwalfa ymerodraethau; diwygiadau, nid rhai crefyddol yn unig ond rhai gwleidyddol, technolegol a moesol, llenyddol hefyd; gwelodd Gymro Cymraeg yn Brif Weinidog ac Iwerddon yn mynnu'i rhyddid. Roedd o hefyd yn hoyw neu'n ddeurywiol meddai rhai ar y we, er na ddywedai ei gofiant yr un gair am hynny.

Ar adeg baglu ar ei draws roeddwn i tua'r un oed ag y mae o yn y llun hwnnw a dynnwyd ym Mhenbedw. Roeddem ganrif ar wahân ond roedd rhywbeth yn ei hunanfeddiant hy yn y ffotograff hwnnw yn fy hudo, a'r obsesiwn oedd gen i am groniclo a chatalogio hanesion hen gadeiriau eisteddfodol yn gymorth i'r diddordeb gydio. Y gŵr ifanc yn y llun fyddai gwrthrych fy nhraethawd, ac fe ddysgwn amdano wrth fynd. Bychan o ran swmp oedd y llyfryn a gynhwysai ddetholiad o holl waith barddonol ei oes; gallwn ymgyfarwyddo'n rhwydd â hynny. Gwelwn ar unwaith o'r blociau twt o destun ar dudalennau Cerddi Prosser Rhys fod hwn, fel finnau, yn ffan o'r soned, a hyd yn oed ei gerddi cynharach yn gwpledi ar fydr iambig, wedi'u trefnu'n wythawdau a chwechawdau. Onid yw pleser y mesurau hynny'n cychwyn cyn darllen gair, wrth weld stafelloedd onglog y cerddi'n tywyllu'r papur? Maent yn wahoddiad i agor drws; yn llyncadwy mewn un; ac o wybod o'r dechrau derfynau ei ddweud, gall y bardd wasgaru ei drawiadau â chysondeb

heb i'w gerdd fynd ar gyfeiliorn. Roedd yn fesur lled newydd yn y Gymraeg yn y 1920au, mesur oedd megis dechrau llacio'i gyhyrau yn nwylo'r cefndryd, Parry-Williams a Williams Parry. Dyna'r cyfrwng perffaith felly i'r arbrofwr o fardd oedd am gymryd trywydd newydd heb bwysau'r canrifoedd o draddodiad a disgwyliadau a ddaw mewn sach ar gefn y gynghanedd. Daeth yn amlwg i mi'n fuan iawn mai bardd oedd am greu math cwbl newydd o gerdd yn y Gymraeg oedd Prosser Rhys; o ran arddull, ffurf a chynnwys. Darllenais yn eiddgar.

Defnyddir yr ymadrodd 'cyn ei amser' yn aml i ddisgrifio rhywun y mae eu dawn a'u gweledigaeth yn serennu ymhell cyn i ni fod â'r ymwybyddiaeth a'r eirfa i'w gwerthfawrogi. Gellid disgrifio Edward Prosser Rhys felly, ac mae rhai wedi gwneud hynny. Ond allaf i ddim llai na theimlo chwaith i hwn gael ei wasgu o'r mowld ar union yr adeg iawn. Llithrodd trwy gil drws oedd wedi ei adael ar agor am gyfnod byr; yn yr ymlacio damweiniol wedi cyflafan enbyd y Rhyfel Byd Cyntaf esgorwyd ar swigen fach o ddegawd lle'r oedd rhyw gymaint o ryddid i ddyn edrych am i mewn ar gyfrin bethau ei feddwl a'i gorff, a'u mynegi. Yn Prosser Rhys gwelaf ŵr a wnaeth elyn tanbaid o ambell un ond oedd, at ei gilydd, yn annwyl iawn i'r rhan fwyaf o bobl a ddeuai i gylch ei gydnabod. Gwelaf un y bu erlid didrugaredd arno gan rai am ei ddaliadau a'r hyn y meiddiodd roi llais iddo, ond un allai ddibynnu ar gefnogaeth gadarn cyfeillion; yr hyn a alwem erbyn heddiw, mae'n siŵr, yn allies. Do, fe'i galwyd gan rai yn wrthun, yn groes i natur; ond roedd cymaint yn fwy yn barod i arddel ei waith a'i ddathlu, i gydnabod fod yma artist beiddgar oedd am i'w gelfyddyd fod yn fwy na rhywbeth cain a phleserus i'r glust, yn rhywbeth – pwy a ŵyr? – allai newid byd.

Yr hyn a ganlyn yn y gyfrol hon yw fy llythyr caru at gerdd sydd wedi fy nilyn ac wedi mynnu cydio yn fy llawes er mwyn fy nhynnu ar ei thrywydd. Mae'n llythyr caru at ei hawdur hefyd, rhywun a aeth ati'n ddewr i gyfansoddi rhywbeth prydferth, ffaeledig, yn wyneb tymestl fewnol fawr. Bardd, fel cymaint o feirdd, a fu farw'n ifanc ac yn hardd, heb ei lawn ddeall gan neb. Bu sôn am ei stori fel un drist ac oes, mae cryn drasiedi yma ac mae mygu teimladau a greddfau yn rhan amlwg o'i daith. Bu sôn hefyd mor wahanol fyddai bywyd Prosser heddiw, o gael byw dan amgylchiadau cymdeithas fwy gwaraidd, fwy goddefgar. Eto i gyd, mae hi mor hawdd rhoi heddiw a ddoe ar ddau wastad cyferbyniol y glorian a chael heddiw'n well. Nid ydym yn ddiduedd wrth gyrraedd casgliadau o'r fath.

Dof i ben fy nhaith wrth i'r trên glecian rownd y tro i orsaf Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd, ac mae tipyn o waith cerdded cyn cyrraedd y dref. Croesaf y ffordd fawr wrth adael y stesion cyn dilyn y llwybr coediog sy'n cadw'n dynn at lan y gamlas ym masn Pant-y-Moel. Mae'n fore llonydd a glawog, y glannau'n fwd a'r adar yn brin, ambell hwyaden ar ddeciau'r cychod yn troi pen i'm cyfeiriad dan gwfl o blu. Croesaf y gamlas a'r ffordd, a chroesi ffordd arall, mynd i'r cyfeiriad anghywir, sylweddoli hynny a throi ar fy sawdl a'm cael fy hun ar Clarence Road, sy'n rhedeg yn gyfochrog ag ymyl Parc Pont-y-pŵl ar ochr draw'r dyffryn. Af yn fy mlaen, heibio i'r llefydd sy'n gwerthu ceir a'r llefydd sy'n cynnig eu golchi, a faint fynnir o gytiau sinc rhydlyd. Wrth ddrws cefn golchdy eironig o fudr Snow White mae criw o'r gweithwyr wedi hel i smocio, ac yn fy nghyfarch yn glên wrth imi fynd heibio. Rydw i'n cerdded ar ymyl ffordd sydd yng ngwely hen lwybr y traciau trên trwy ardal Trosnant; yma y byddai'r trên wedi arafu wrth stemio i'r orsaf gerllaw'r gwaith nwy a'r felin ŷd, a Prosser yn cael ei olwg gyntaf ar dref fywiog Pont-y-pŵl.

Saif adeilad y gwesty fel un o drindod ym mhen uchaf Clarence Street. Mae iddo ddyluniad tri llawr trawiadol, y simneiau uchel a'r to gambrel serth yn rhoi iddo urddas sy'n hawlio'r gornel. Tŷ tafarn ydoedd yn nyddiau cynnar y 1820au; tua hanner canrif yn ddiweddarach daeth yn westy ac erbyn blwyddyn Eisteddfod

Pont-y-pŵl roedd gwaith sylweddol diweddar wedi rhoi i'r adeilad ei wyneb crand sydd mor amlwg heddiw. Er bod pobl leol yn dwyn y Clarence i gof fel y poshaf o westai'r dref aeth yr adeilad yn wag o ganol y 1980au a heddiw, dan darmac yr A4043, archfarchnad Tesco, a phopeth cysylltiedig â'r ddeubeth hynny y mae llawer o'r hyn y byddai Prosser wedi ei weld trwy'r ffenestri eang. Gofalwyr yn eu dillad gleision llaes sy'n mynd a dod wrth i mi basio: wedi sawl ymgais aflwyddiannus i adfer y gwesty i foethusrwydd y dyddiau a fu, y ffasâd yw'r unig fur gwreiddiol sy'n dal i sefyll ar flaen y cartref gofal i'r henoed.

Ond rhai o lenorion ifainc mwyaf herfeiddiol eu hoes sy'n cydseiadu a chydfrecwasta dan gronglwyd y Clarence Hotel ar ddechrau Awst 1924: Prosser Rhys, John Eilian a Cynan. Ni ellid bod wedi dod o hyd i arhosfan mwy cyfleus a dymunol am yr wythnos gan na chymer fwy na phum munud ar droed i gyrraedd mynedfa'r parc gyferbyn â neuadd y dref. Drws nesaf, mae'r Carlton Café yn addo seigiau a phaneidiau i'r eisteddfodwr llwglyd. Ac i gwblhau'r drindod, y drws nesaf i'r caffi mae argraffdy Henry Hughes, cartref y Pontypool Free Press gynt ac erbyn i mi fynd heibio, pencadlys cwmni tacsi Fab Kabs, ond gyda'r llythrennau bras, er eu plicio, yn dal i ddatgan NEWSPAPERS. Ar gyfer wythnos yr Eisteddfod, addurnir y sgwâr o flaen yr adeiladau hyn â baneri – Jaciau'r Undeb, yn ddieithriad, bron – ac arwydd mawr calonagored ar du blaen yr argraffdy sy'n fy atgoffa o ymdrechion harddu eisteddfodol fy mro innau: CROESAW I BAWB. Yma yn aroglau'r inc a'r te mae pŷls a chyffro'r ŵyl gymaint ag unman arall, a'r tri chyfaill yng nghanol y berw, yn gefn i'w gilydd. Gyda'r nosau, mae rhai o eilunod y beirdd ifanc yn glanio yn y Clarence i yfed, T. Gwynn Jones ac R. Williams Parry yn eu plith.

Mewn ffotograff a dynnwyd gan nai i Elfed, yr Archdderwydd, wrth i'r orymdaith orseddol fynd heibio i du blaen y Clarence, caf fy llygad-dynnu uwch pennau'r dorf at ddau ffigwr bychan sy'n sefyll ar y balconi i wylio'r dorf. Does dim posib yn y byd, wrth gwrs, imi wybod pwy yw'r ddau anhysbys hyn; ac nid criw o feirdd ifainc heb lawer o arian fyddai â sedd orau'r tŷ i wylio'r pasiant yn hwylio heibio, mae'n siŵr. Ond mi hoffwn fynd yno, dod o hyd i Albert, Prosser a John lle bynnag y bônt, a chlustfeinio ar eu sgwrs.

Wrth geisio dychmygu Prosser yn hen, rydw i'n meddwl am ei ddau gyfaill o'r dyddiau hynny; un ymhen amser yn gonglfaen pendifaddau'r Orsedd ac yn un o geidwaid llymaf pyrth llenyddiaeth a drama Gymraeg, a'r llall yn sefyll fel ymgeisydd Seneddol i'r Torïaid yn Ynys Môn ar dri achlysur – ym 1964, 1966 a 1970. Efallai bod rhywbeth i'w ddweud dros farw'n ifanc, yn ddi-OBE a chyda mymryn o'r hen wrthryfel yn dal i ganu yn y gwaed.

Ni ddeuthum i Bont-y-pŵl i chwilio am Prosser. Er mai yma y daeth ei awr fawr, nid oes rhagor yn stori ei fywyd i'w glymu yma. Ond bu'n werthfawr yr un fath, a hynny'n rhannol oherwydd mor llethol ei absenoldeb, fel absenoldeb yr holl eisteddfodwyr eraill a laniodd yma yn Awst 1924. Yn rhannu bwrdd hefo fi yn y stafell ddarllen yn Amgueddfa Torfaen mae'r hanesydd lleol Mike Buckingham, wedi'i amgylchynu â phapurau'r bardd Myfanwy Haycock wrth iddo baratoi ei gyfrol amdani. 'There's just so much to go through!' medd, ei lygaid yn pefrio â chyffro'r darganfyddiadau newydd. Ydi, mae Myfanwy ym mhobman yma – dof wyneb yn wyneb â cherflun ohoni wrth fynedfa'r parc, ac mae arddangosfa amdani yn ffenest flaen siop y cyngor tref. Mae cerflun Chris Wood hefyd yn fan cychwyn y Myfanwy Trail, sydd ar gael i'w lawrlwytho fel ap.

Mae hynny o ddehongli sydd am Eisteddfod Genedlaethol 1924 wedi'i gyfyngu i sylw byr am y ffaith bod y brifwyl wedi ymweld yn y flwyddyn honno, a rhywfaint o wybodaeth am symbolaeth a seremonïaeth yr Orsedd gerllaw'r cylch cerrig sy'n dal i sefyll ym mhen ucha'r parc. Os yw Prosser wedi profi adfywiad yn

y byd llenyddol Cymraeg, mentraf mai prin yw'r wybodaeth am herfeiddiwch ei gamp yma ar faes y fuddugoliaeth. Fel petai'n cadarnhau fy amheuon, trof y ffeil archifol drosodd a chanfod yn y cefn lun o gast pantomeim cymunedol, wedi'i gambriodoli fel ffotograff o Orsedd Beirdd Ynys Prydain. Maddeuaf y camgymeriad am y wên a gododd, ac yn lle cywiro, fe'i gadawaf yno fel y mae i atgoffa'r ymchwilydd nesaf ddaw ar ei draws i beidio â chymryd ei hun ormod o ddifri, chwaith.

Rydw i'n sôn wrth Morgan Owen, yr ysgrifwr a'r bardd o Ferthyr, am yr hyn a'm trawodd. Mae'n uniaethu â'r hyn a ddisgrifiaf yn ei decst sy'n glanio wrth imi setlo'n anfoddog ar bastai o Gregg's i ginio: 'Mae 'na lawer iawn o hanes y Gymraeg yn yr agored amlwg yn y Cymoedd a'r rhannau hynny sydd am y ffin â'r Cymoedd, ond braidd ddim dehongli, fel petai'n anweledig.' Ym 1924 byddai mwyafrif y bobl oedd dros eu deg ar hugain yn siarad Cymraeg, a llawer iawn hefyd o'r rhai iau; ac wedi heidio i'r Eisteddfod. Wrth bwyso yn erbyn gwastadedd oer y Maen Llog cennog yn nes ymlaen, rydw i'n meddwl am yr Eisteddfod Genedlaethol sydd ar y gorwel ym mharc trefol cwm arall rhyw ugain milltir o'r man hwn, ganrif union yn ddiweddarach.

Cyhoeddodd bardd lleol o Bontnewynydd benillion yn Saesneg i gyfarch Parc Pont-y-pŵl fel cofrodd i Eisteddfod Genedlaethol 1924. Aeth ar gais Elfed i roi pwt o ragair, a chafodd un pragmatig ganddo; syml a chartrefol oedd y penillion, meddai, 'and will give innocent pleasure to many':

> Here great people will foregather,
> Men of wisdom and of wit,
> Mingle with the upper classes
> And the workers from the pit.
> Bards of Wales will here assemble
> Who have written many tales
> In their own poetic language
> Of the wond'rous Land of Wales.

Er mai prin y gellid dweud fod llawer o raen llenyddol i linellau Mr Clark, maent yn mynegi'r hyn a olygai'r cyfle hwn i westeio eisteddfod genedlaethol yn yr ardal; yr elfen yna o niwlo ffiniau dosbarth cymdeithasol, a'r modd yr edrychid i fyny yn ddelwaddolgar bron at y Beirdd a gyfansoddai yn y Gymraeg hyd yn oed gan y rhai na ddefnyddient mohoni eu hunain.

Dywedodd yr AS lleol Heledd Fychan ar ddydd Gŵyl Dewi fod yn rhaid sicrhau eisteddfod fforddiadwy. Ac mewn vox-pop ar strydoedd Pontypridd, dyna breswylydd lleol, Jean Bennett, yn gofyn 'pam nagy'n nhw'n cynnal e yng Nghaerdydd?' Erbyn canol Mawrth, cafwyd cyhoeddiad y byddai hyd at 18,400 o breswylwyr lleol yn gallu manteisio ar gynllun i gynnig tocynnau am ddim i'r Brifwyl, gyda Llywodraeth Cymru yn cyfrannu dros chwarter miliwn o bunnoedd tuag at fynediad a thalebau bwyd i deuluoedd ac unigolion ar incwm isel. Roedd rhamant yn syniad y bardd o Bontnewynydd fod yr Eisteddfod Genedlaethol fel gwastadydd mawr, lle gallai'r sgweier a'r glöwr gydgerdded fraich ym mraich am wythnos fach. Mae Pontypridd yn gwarchod porth cymoedd Rhondda; ac i fyny'r lôn heddiw mae dros un ym mhob tri o blant yn byw mewn tlodi yn y blotyn tywyllaf ar fap moel yr ystadegau.

Crwydraf gorneli'r hen dref yn y gobaith o ddod o hyd i dafarn sydd ar agor, i gael llymaid cyn troi am Gaerdydd. Llusgaf fy sodlau mewn siop hen bethau ac yn neuadd y farchnad. Yn lle codi peint, bodlonaf ar

goffi mewn cwpan bapur o'r ganolfan hamdden, ac af am y trên.

bwthyn
GWASG Y BWTHYN